**PRIFYSGOL ABERTAWE**

**Y Pwyllgor Ymchwil, Arloesi ac Effaith**

1. *Adrodd*

   Mae'r Pwyllgor Ymchwil, Arloesi ac Effaith yn adrodd i'r Senedd.

2. *Amlder Cyfarfodydd*

   Dylai'r Pwyllgor gwrdd o leiaf unwaith bob tymor. Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd arbennig. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio cyfleusterau e-bost neu ffôn/fideo-gynadledda fel y bo'n briodol i ymgymryd â'i fusnes yn effeithiol.

3. *Cyfansoddiad*

   Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys:

   AELODAETH Y PWYLLGOR YMCHWIL, ARLOESI AC EFFAITH 2021

   Y Dirprwy Is-ganghellor Arloesi ac Ymchwil - yr Athro Helen Griffiths (Cadeirydd); Deon Cysylltiol Ymchwil, Arloesi ac Effaith y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd - yr Athro Gareth Jenkins ynghyd ag un cynrychiolydd o'r gyfadran.
   Deon Cysylltiol Ymchwil, Arloesi ac Effaith Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol - yr Athro Jonathan Bradbury ynghyd ag un cynrychiolydd o'r Gyfadran;
   Deon Cysylltiol Ymchwil, Effaith ac Arloesi'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg - yr Athro Perumal Nithiarasu ynghyd ag un cynrychiolydd o'r Gyfadran;
   Cyfarwyddwr Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan - yr Athro Matt Jones;
   Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Ymchwil Ôl-raddedig - yr Athro Gert Arts; cynrychiolydd wedi'i enwebu ymchwilwyr ôl-ddoethurol;
   Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Diwylliant Ymchwil - i'w gadarnhau;
   Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Cyfnewid Gwybodaeth, Mentergarwch a Phartneriaethau - i'w gadarnhau;
   Cynrychiolydd wedi'i enwebu o Weithgor y Staff Ymchwil.

4. *Tymhorau Penodiad*

   Dylid rhoi sylw dyladwy i ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn sicrhau amrywiaeth a chynwysoldeb. Gall y cyfansoddiad a'r aelodaeth newid gyda chytundeb y pwyllgor.

5. *Presenoldeb*

   Gall y Cadeirydd, yn ôl ei ddoethineb, wahodd swyddogion eraill yn y Brifysgol, fel y bo'n briodol, i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

Swyddogion sy'n Mynychu Cyfarfodydd y Pwyllgor
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS) - Ceri Jones; Cyfarwyddwr Cysylltiol REIS a Phennaeth Datblygu Ymchwil - Julie Williams; Llyfrgellydd y Brifysgol - Alexander Roberts;
Pennaeth Ymgysylltu, Arloesi ac Entrepreneuriaeth - Emma Dunbar;
Ysgrifennydd y Pwyllgor a Dirprwy Bennaeth Datblygu Ymchwil - Rebecca Lewis;
Rheolwr yr Hyb Ymchwil ac Arloesi - un gwahanol ym mhob cyfarfod;
Rheolwr Rhaglen y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil - i'w gadarnhau;
Arweinydd Datblygu Ymchwilwyr Adnoddau Dynol - Charlotte Morgans
Cynrychiolydd o MRI - Emma Nehemiah

6. *Cworwm*

Bydd un traean o aelodaeth y Pwyllgor yn gworwm.

7. *Diben*

Diben y Pwyllgor Ymchwil, Arloesi ac Effaith yw llywio, datblygu a dylanwadu ar waith drwy'r Brifysgol gyfan i oruchwylio a chydlynu gweithgareddau sy'n hwyluso ymchwil, arloesi ac effaith ragorol a diwylliant ac amgylchedd ymchwil ffyniannus.

8. *Cylch Gorchwyl*

Dyletswyddau'r Pwyllgor fydd:

- datblygu Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol a'i chynllun gweithredu a'u rhoi ar waith;
- adolygu cynnydd yn erbyn y Cynllun. Ystyried adroddiadau cyfnodol am berfformiad ymchwil, ansawdd ymchwil a chynhyrchu incwm ymchwil, gan gynnwys data meincnodi cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol lle mae hyn ar gael, gan gynghori ar risgiau a chyfleoedd;
- drwy'r Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig, goruchwylio strategaethau effeithiol ar gyfer recriwtio a chefnogi myfyrwyr ôl-raddedig a'u dilyniant llwyddiannus; goruchwylio datblygiad a monitro sut caiff gweithgareddau'r Brifysgol eu cyflawni mewn perthynas â rhoi'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfaoedd Ymchwilwyr ar waith;
- goruchwylio datblygiad a gweithrediad lleol polisïau sy'n angenrheidiol ar gyfer ymgymryd ag ymchwil ac arloesi mewn modd cyfrifol, gan gynnwys Ysgolheictod Agored ac Ymchwil y Gellir Ymddiried Ynddi, ac ar gyfer y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth;
- goruchwylio datblygiad a gweithrediad parhaus Strategaeth Cyfathrebu am Ymchwil y Brifysgol, gan nodi a phennu heriau mawr mewn perthynas ag elfennau allweddol o'r Strategaeth Ymchwil ac Effaith a datblygu, hyrwyddo a monitro polisïau ac arferion i sbarduno ymchwil yn y meysydd y cytunwyd arnynt;
- nodi a datblygu cyfleoedd cyllido i greu'r amgylchedd priodol a'r isadeiledd cysylltiedig i gynyddu ymchwil ac effaith y Brifysgol;
- hyrwyddo cydweithredu ac ymchwil ryngddisgyblaethol, gan gynnwys drwy MASI, yn fewnol ac yn allanol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol; hyrwyddo

ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol allweddol mewn perthynas ag ymchwil, cyfnewid gwybodaeth, eiddo deallusol a masnacheiddio, gan hyrwyddo a lledaenu gwaith i gyfnewid gwybodaeth a syniadau rhwng sefydliadau a hyrwyddo arfer da mewn ymchwil ac arloesi a hyrwyddo ymchwil, ymgysylltu a llwyddiannau effaith; argymell sefydlu, diwygio a chau Sefydliadau Ymchwil y Brifysgol, derbyn adroddiadau ac adolygu eu perfformiad ar adegau addas;

- monitro datblygiadau a thueddiadau yn nhirwedd ymchwil ac arloesi'r DU ac yn rhyngwladol; ymgysylltu mewn ffordd amserol a dylanwadu drwy fod yn aelodau o gyrff allanol yn unol â'r strategaeth ymchwil ac effaith; monitro ac adolygu cynlluniau'r Brifysgol ar gyfer rhyngwladoli, i'r graddau y maent yn berthnasol i ymchwil ac arloesi; derbyn ac ystyried adroddiadau gan Bwyllgor Moeseg, Uniondeb a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, pwyllgorau ymchwil Cyfadrannau, y Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig, REIS ac is-grwpiau cysylltiedig;
- rhoi ystyriaeth ragweithiol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob penderfyniad a wneir wrth sefydlu'r fath is-grwpiau a all fod yn ofynnol i weithredu ym meysydd penodol cylch gorchwyl y Pwyllgor. Adrodd i'r Senedd am ei weithgareddau a chynghori ar faterion a gyfeirir ato gan y Senedd.

*4*. Is-bwyllgorau/Is-grwpiau:

- Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig
- Gweithgor Staff Ymchwil
- Bwrdd Llywio'r Strategaeth Ymchwil
- Pwyllgor Trosolwg RWIF
- Pwyllgor Trosolwg MASI
- Fforwm Gwyddoniaeth Agored

*5. Arall*

Ystyried unrhyw faterion eraill a gyfeirir at sylw'r Pwyllgor gan y Senedd.

*6. Adolygiad Effeithiolrwydd*

(i) Adolygu'n flynyddol effeithiolrwydd y Pwyllgor yn erbyn ei gylch gorchwyl a chynnig argymhellion ar gyfer newid i'r Pwyllgor Arloesi ac Effaith Ymchwil.

*7. Pwerau*

(i) Gweithredu ag awdurdod a ddirprwywyd gan y Senedd;
(ii) Sefydlu'r fath grwpiau tasg a gorffen sy'n angenrheidiol i hwyluso busnes y Pwyllgor;

*Cyflwynwyd i'w gymeradwyo fis Hydref 2022*
*Cymeradwywyd gan y Senedd: Hydref 2022*
*Dyddiad Adolygu Nesaf: Hydref 2023*